**Cartrefi Conwy Cyfyngedig**

Swyddfa Gofrestredig: Morfa Gele, Parc Busnes Gogledd Cymru,

Cae Eithin, Abergele, Conwy LL22 8LJ

**Telerau ac Amodau**

**Cynllun Gwobrau Cartrefi:  Mehefin 2016**

**Diwygiwyd: Mai 2017**

HOME REWARDS

## DIBEN

Pwrpas Cynllun Gwobrau Cartrefi (“y Cynllun”) Cartrefi Conwy yw gwobrwyo tenantiaid Cartrefi Conwy (“y Gymdeithas”) sy’n ymgysylltu â’r Gymdeithas, bodloni eu hymrwymiadau tenantiaeth a’n cynorthwyo i gynnal ein stoc tai i safonau a gytunwyd.

## Amodau a Thelerau Cyffredinol

- Mae’r Cynllun ar agor i holl denantiaid Cartrefi Conwy gyda’r wobr “Rydw i’n cyfranogi” yn unig yn cael ei hestyn i feddianwyr a enwir. Mae tenantiaid Cartrefi Conwy sydd wedi eu cynnwys yn y raffl yn denantiaid sicr i Cartrefi Conwy.
- Gan mai bwriad y Cynllun yw annog a gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol, mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i wahardd neu dynnu tenant allan os oes pryderon, ymchwiliad, neu gamau cyfreithiol ar y gweill neu’n cael eu hystyried a bod y tenant wedi cael gwybod amdanynt. Caiff rhesymau dros dynnu’n ôl neu eithrio eu cofnodi.
- Bydd y Cynllun yn cynnwys amrywiaeth o rafflau gwobrau ariannol.
- Gall tenantiaid gael eu cynnwys mewn sawl Raffl cyn belled â’u bod yn gymwys yn unol â’r telerau ac amodau penodol ar gyfer pob raffl fel a nodir isod.

- Ni fydd eithriad i denantiaid o rafflau yn y dyfodol os ydynt wedi ennill o'r blaen.
- Caiff telerau ac amodau ar gyfer gweithredu'r Cynllun hwn eu hadolygu ym mis Mehefin 2017 ac yn flynyddol wedi hynny. Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i atal neu dynnu'r Cynllun neu unrhyw un o'r rafflau yn ôl ar unrhyw adeg.
- Bydd y dull o dalu gwobrau'r raffl yn amodol ar amgylchiadau unigol.
- Os oes unrhyw fath o ddyled i'r Gymdeithas y mae'r tenant yn atebol amdani fel ôl-ddyledion, ad-daliadau neu ôl-ddyledion cyn-denantiaid, bydd arian y wobr yn cael ei osod yn erbyn cyfrif y tenant i wneud iawn am yr ôl-ddyledion.
- Os yw gwerth y wobr raffl yn fwy na'r ddyled i'r Gymdeithas, bydd unrhyw falans sy'n weddill yn cael ei dalu i'r tenant.
- Gall tenantiaid godi unrhyw bryderon o ran y cynllun gwobrau a gofyn am wybodaeth am y rafflau maen nhw wedi'u cynnwys ynddynt, drwy gysylltu â'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 124 0040. Yna caiff galwadau eu hailgyfeirio at y cydweithiwr perthnasol fel bo angen.
- Bydd y Gymdeithas yn penderfynu ar bob mater sy'n ymwneud â chyhoeddi'r Cynllun Gwobrau Cartrefi. Ni chaiff enwau enillwyr eu datgelu heb eu caniatâd.
- Caiff enillwyr wybod eu bod wedi ennill drwy ddefnyddio eu gwybodaeth gyswllt ddewisol, gan gynnwys dros y ffôn, e-bost ac yn ysgrifenedig. Bydd y Gymdeithas yn ceisio cysylltu â'r enillwyr 3 gwaith, a gaiff eu cofnodi. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau i hawlio gwobrau raffl ar ôl 6 mis o ddyddiad y raffl.

**Rafflau unigol: Nod ac amlder**

| **Enw'r raffl** | **Nod y raffl** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Rydw i'n Talu | Annog tenantiaid i sicrhau bod yn gynnar, neu'n gyfredol gyda'u taliadau rhent. | Raffl wobrau fisol.<br>Caiff y raffl ei thynnu yn ystod trydydd wythnos pob mis calendr ar sail cymhwysedd yn y mis blaenorol.<br>Caiff y raffl gyntaf ei thynnu ym mis Gorffennaf 2016. |
| Rydw i'n Cyfranogi | Annog tenantiaid i gyfranogi mewn nifer o weithgareddau a digwyddiadau. | Raffl wobrau bob chwarter.<br>Caiff y raffl ei chynnal yn ystod trydydd wythnos mis Hydref, Ionawr, Ebrill a Gorffennaf, ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | sail gweithgaredd y 3 mis calendr llawn blaenorol.<br><br>Cynhelir y raffl gyntaf ar gyfer 'Rydw i'n Cyfranogi' ym mis Hydref 2016. |
| Rydw i'n Falch | Annog tenantiaid i gynnal eu cartref i safon addas yn unol ag amodau tenantiaeth. | Raffl wobrau fisol.<br><br>Caiff y raffl ei thynnu yn ystod trydydd wythnos pob mis calendr ar sail cymhwysedd yn y mis blaenorol.<br><br>Caiff y raffl gyntaf ei thynnu ym mis Gorffennaf 2016. |
| Rydw i wedi Cysylltu | Annog tenantiaid i ddefnyddio Cartrefi. | Raffl wobrau fisol.<br><br>Caiff y raffl ei thynnu yn ystod trydydd wythnos pob mis calendr ar sail cymhwysedd yn y mis blaenorol.<br><br>Caiff y raffl gyntaf ei thynnu ar 22 Gorffennaf 2017. |

**Rydw i'n Talu- Raffl fisol**

Pwrpas raffl 'Rydw i'n Talu' yw gwobrwyo tenantiaid sy'n bodloni eu rhwymedigaethau gyda'u taliadau rhent. Mae meini prawf y raffl wedi'u nodi isod:

- Mae pob tenant yn cael eu cynnwys beth bynnag yw eu dull o dalu rhent, ar yr amod;
    - Os bydd y tenant yn cymryd rhan mewn Cyfnewid Rhent, mae ganddynt sgôr o 0. Mae hyn yn golygu bod y tenant yn gynnar, neu'n gyfredol gyda'u taliadau rhent.
- Nid oes lefelau uchel o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi'u cofnodi yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae lefel uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cynnwys unrhyw ymyrraeth ffurfiol neu gamau cyfreithiol a gymerir, er enghraifft cyflwyno Contract Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Dim ond y tenant arweiniol ellir ei roi yn y raffl. Ni chaiff meddianwyr eu hystyried ar gyfer y raffl. Y tenant arweiniol yw'r 'Prif Gyswllt' ar System Dai Agored Cartrefi Conwy. Caiff gwobr ei dyfarnu i'r 'Prif Gyswllt' fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd pan nad y prif gyswllt yw'r tenant, caiff amgylchiadau unigol eu hadolygu a gwneir taliadau yn unol â hynny.

**Rydw i'n Cyfranogi – Raffl bob Chwarter**

Pwrpas raffl 'Rydw i'n Cyfranogi' yw annog tenantiaid i ymgysylltu a chyfranogi mewn digwyddiadau a gweithgareddau a gynigir gan Cartrefi Conwy. Mae meini prawf y raffl wedi'u nodi isod:

- Bydd tenantiaid a meddianwyr sydd wedi cwblhau Holiadur Ymgysylltu 'Lleisiau@Cartrefi' Cartrefi Conwy gan nodi eu dewisiadau cyfranogiad yn gymwys ar gyfer y raffl hon, ac eithrio meddianwyr sydd dan 18 oed.
- Caiff nifer o feddianwyr mewn aelwyd eu cynnwys yn y raffl os ydynt wedi cwblhau Holiadur Ymgysylltu unigol.
- Caiff cronfa ddata o denantiaid sydd wedi cwblhau Holiadur ei hadolygu bob 12 mis. Os nodir yn yr adolygiad na fu unrhyw gyfranogiad yn ystod y flwyddyn, bydd hyn yn arwain at dynnu allan o'r gystadleuaeth.
- Bydd tenantiaid a meddianwyr a dynnir yn ôl yn gymwys i gael cymryd rhan mewn rafflau yn y dyfodol os byddant yn cwblhau Holiadur Ymgysylltu 'Lleisiau@Cartrefi' newydd.
- Bydd gan denantiaid a meddianwyr opsiwn i gwblhau a chyflwyno holiadur ar-lein drwy'r wefan, drwy'r post, yn eiddo Cartrefi Conwy, a dros y ffôn.
- Gofynnir i denantiaid a meddianwyr ddiweddaru eu dewisiadau ymgysylltu bob blwyddyn.

**Rydw i'n Falch- Raffl Fisol**

Pwrpas raffl 'Rydw i'n Falch' yw annog tenantiaid i gynnal eu cartref i safon addas fel a nodir yn y telerau ac amodau tenantiaeth. Mae meini prawf y raffl wedi'u nodi isod:

- Bydd pob tenant yn cael eu cynnwys yn y raffl ar yr amod eu bod wedi;
    - Cwblhau Ymweliad Partner Cartref yn y 4 wythnos diwethaf.
    - Cael eu nodi gan y Partner Cartref fel rhai sy'n cadw at amodau tenantiaeth yn ymwneud â chyflwr eiddo a chwrdd â'r holl feini prawf isod;
        1. Addurniad Mewnol: mae'r cartref mewn cyflwr glân a thaclus
        2. Heb unrhyw ddifrod y tu mewn (ac eithrio traul arferol)
        3. Gardd mewn cyflwr trwsiadus, twt a thaclus
        4. Yn gwaredu unrhyw sbwriel yn briodol (dim eitemau mawr yn y cartref / gardd, h.y. oergell, matres.)

5. Dim gwastraff anifeiliaid gormodol yn y gerddi
6. Dim sbwriel mewn ardaloedd cymunedol (os yw’n berthnasol)
7. Cynteddau, grisiau a phen grisiau clir mewn ardaloedd cymunedol (os yw’n berthnasol)

- Bydd y Partner Cartref yn rhoi gwybod i’r tenant yn ystod yr ymweliad a fyddant yn cael eu cynnwys yn y raffl. Os na fydd y tenant yn cael ei gynnwys yn y raffl, bydd y tenant yn cael gwybod am yr ardal(oedd) i’w gwella. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi.
- Fel isafswm, bydd pob Tenant yn cael ymweliad Partner Cartref unwaith y flwyddyn.
- Dim ond y tenant arweiniol gaiff ei roi yn y raffl. Ni chaiff meddianwyr eu hystyried ar gyfer y raffl. Y tenant arweiniol yw’r ‘Prif Gyswllt’ ar System Dai Agored Cartrefi Conwy. Caiff y wobr ei rhoi i'r 'Prif Gyswllt' yn unig.

**Rydw i wedi Cysylltu- Raffl Fisol**

Pwrpas raffl ‘Rydw i wedi Cysylltu’ yw annog tenantiaid i ddefnyddio gwasanaeth ar-lein Cartrefi ac optio allan o gopïau papur cyfathrebu rheolaidd fel newyddlenni. Mae meini prawf y raffl wedi’u nodi isod:

- Caiff tenantiaid sydd wedi cofrestru am y tro cyntaf neu sydd wedi mewngofnodi ar [www.mycartrefi.org](http://www.mycartrefi.org) yn ystod y pedair wythnos diwethaf eu cynnwys yn y raffl. Gall tenantiaid ar gyd-denantiaeth gofrestru cyfrif i ddefnyddio Cartrefi a chael cyfle o ennill gwobr.
- Nid oes lefelau uchel o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi’u cofnodi yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae lefel uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cynnwys unrhyw ymyrraeth ffurfiol neu gamau cyfreithiol a gymerir, er enghraifft cyflwyno Contract Ymddygiad Gwrthgymdeithasol neu Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Bydd tenantiaid yn gymwys ar gyfer y raffl waeth beth yw eu dull o dalu rhent cyn belled â’u bod yn cymryd rhan yn y Gyfnewidfa Rhent a bod ganddynt sgôr o 0. Mae hyn yn golygu bod y tenant yn gynnar, neu’n gyfredol gyda'u taliadau rhent.